

Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

North & Mid Wales Trunk Road Agent

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Swyddog Coedyddiaeth

## Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



DAVID COOIL
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.



# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd aChanolbarth Cymru.

- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





# Teitl y swydd: Swyddog Coedyddiaeth

Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth?  Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi.  Rydym yn chwilio am **Swyddog Coedyddiaeth** i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.

**Cyflog:** S4 (SCP 26-28) £34,834 - £36,648

**Cyfnod:** 18 mis

**Lleoliad: Gweithio Hybrid** o un or swyddfeydd isod:

Bangor / Helygain / Dolgellau / Conwy

**Dyddiad cau:** 09/05/2024

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

## Pwrpas y swydd

Bod yn gyfrifol am reoli'r coed, coedwigoedd a'r gwrychoedd ar y rhwydwaith cefnffyrdd yn rhanbarthau Gogledd a Chanolbarth Cymru, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Ymgymryd yn uniongyrchol ag arolygon diogelwch coed ac archwiliadau cyflwr coed ar hyd llwybrau cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.



# Cyfrifoldebau

**Arolygon ac Archwiliadau**

**a) Arolygon diogelwch coed**

Ymgymryd ag archwiliadau coed a gwrychoedd systematig ar hyd y Rhwydwaith Cefnffyrdd yn unol â gofynion Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru (LlCChCLlC). Mae hyn yn cynnwys bob coeden o fewn pellter disgyn o'r briffordd neu sy'n achosi rhwystr i welededd neu oleuadau, y rhai sy'n tyfu yn ystâd feddal Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru (LlC) yn ogystal â choed trydydd parti mewn perchnogaeth breifat. Mae hefyd yn cynnwys coed sy'n tyfu yn yr ystâd feddal sydd o fewn pellter disgyn i eiddo trydydd parti.

**b) Coedwigoedd**

Ymgymryd ag arolygon ac archwiliadau o'r coedwigoedd a lleiniau wedi'u plannu o fewn yr ystâd feddal ac argymell rheolaeth, gweithrediad a chofnodi.  Adnabod plâu ac afiechydon yn y coedydd, rhywogaethau anfrodorol a allai fod yn fygythiad i iechyd coed neu fioamrywiaeth.  Ymgymryd ag arolygon coed ar sail *ad-hoc* ar gais gan eraill megis Llywodraeth Cymru, staff ACGCC neu gŵyn gan y cyhoedd.

**c) Bioamrywiaeth**

Adnabod cyfyngiadau a allai effeithio ar reolaeth coed neu wrychoedd megis rhywogaethau, safleoedd neu ddynodiad a warchodir, Gorchymyn Gwarchod Coed, Ardaloedd Cadwraeth, a threfnu arolygon angenrheidiol neu geisiadau caniatâd.  Gwneud archwiliad neu fonitro isadeiledd bioamrywiaeth ac asedau ystâd feddal eraill yn ôl gofyn y Cydlynydd Amgylcheddol neu'r Ecolegydd.

**Cynnal a chadw**

Dylunio a gweithredu rhaglenni rheoli ar gyfer gwaith ystâd feddal yn unol â chynlluniau rheoli amgylcheddol Llywodraeth Cymru, y *Design Manual for Roads and Bridges* (DMRB), gofynion deddfwriaeth ac arfer da.  Trefnu a blaenoriaethu amserlenni gwaith er cyflwyno a rheoli rhaglenni gwaith adfer coed a gwrychoedd.  Dylunio a gweithredu rhaglenni rheolaeth ar gyfer ardaloedd coedwigoedd a gwrychoedd i gynnwys teneuo, tocio a rheoli afiechydon coed a gwella bioamrywiaeth fel y cytunir gyda'r Cydlynydd Amgylcheddol neu Ecolegydd.

**Gwelliannau Cyfalaf**

Cynorthwyo'r Ecolegydd a'r Cydlyndd Amgylcheddol i adnabod cyfleoedd ar gyfer gwaith lliniaru risgiau a gwelliannau, a chysylltu gwaith amgylcheddol yr un pryd â rhaglenni gwaith rheoli asedau eraill.

Darparu cefnogaeth a chymorth i'r Uned Cyflawni ac Archwilio a darparwyr gwasanaeth yn nyluniad a gweithrediad prosiectau gwelliannau cyfalaf, gan gynnwys rhaglenni gwaith ar gyfer goleuadau stryd, strwythurau, carthffosiaeth a gwaith geodechnegol, ac i sicrhau bod coed yn cael eu hystyried yn ddigonol ac yn derbyn diogelwch addas i'r gwreiddiau ac ati.

Cysylltu gyda darparwyr gwasanaeth a goruchwylwyr a'u harolygu yn eu hymgysylltiad i adeiladu gwaith gwelliannau i fioamrywiaeth.



## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i'r swydd

**Hanfodol**
Yr ydym yn chwilio am berson sydd yn gallu arwain tîm, yn ymroddgar ac â'r gallu i'w gymell ei hun, yn ogystal â gallu gweithio dan bwysau

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

**Hanfodol**
Chwilio am berson sydd a cymhwyster yn ymwneud â choedyddiaeth sy'n gyfwerth â chymhwyster Lefel 4, yn ogystal â phrofiad perthnasol **neu, c**ymhwyster yn ymwneud â choedyddiaeth sy'n gyfwerth â chymhwyster Lefel 3 ar y lleiaf, cymhwyster gyda phrofiad perthnasol helaeth

## Profiad perthnasol

**Hanfodol**
Chwilio am berson sydd â phrofiad coedyddiaeth ymarferol, gydag o leiaf tair blynedd o brofiad Gwaith ar ôl cymhwyso, yn ogystal â phrofiad o weithio gyda chontractwyr

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

**Hanfodol**
Gallu trefnu blaenoriaethau gwaith, cynllunio ymlaen llaw a chyflwyno rhaglenni gwaith yn brydlon.
Sgiliau rhyngbersonol cadarn ynghyd â sgiliau ysgrifennu, cyfathrebu a chyflwyno da.
Gallu addasu i ystod eang o faterion gweithredol.
Gallu derbyn, cydweddu a gwerthuso gwybodaeth o amryfal ffynonellau.
Gallu cydlynu'n effeithiol a rheoli cyflawni rhaglenni gwaith drwy ddarparwyr gwasanaeth.
Gwybodaeth drylwyr o ddeddfwriaeth, safonau a pholisïau eraill sy'n ymwneud â rheolaeth amgylcheddol.
Dealltwriaeth benodol o feddalwedd TG a ddefnyddir i reoli cynnal a chadw coed, e.e. Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) ac offer cronfa ddata
Trwydded yrru ddilys gyfredol

## Gofynion ieithyddol

Mae'r gallu i siarad Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a

- 26 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio’n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i’r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!

- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.